**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/P/LG/3880/18

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

19 Rhagfyr 2018

Annwyl Mike

**Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru 2018-2023 a Chynllun Gweithredu 2018-2019**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 6 Medi 2018 yn amgáu copi o Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Gwarchodedig Morol Cymru 2018-2023 a Chynllun Gweithredu 2018-2019, fe'm hysbyswyd am fân gywiriadau i'r ddwy ddogfen.

Diwygiwyd y Fframwaith i adlewyrchu'r ffaith bod 139 o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd Cymru yn hytrach na'r 140 a nodwyd yn wreiddiol. Mae'r Fframwaith yn rhestri Cors Fochno a Dyfi fel safle Ramsar. Mae cyngor blaenorol yn awgrymu bod hon yn gymwys i'w galw'n safle morol oherwydd presenoldeb y pibydd coeswyrdd, a ystyrir yn aderyn morol. Fodd bynnag, ers hynny mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi egluro mai daearol yw unig nodweddion cyfreithiol y safle:

- Cyforgorsydd gweithredol;
- Cyforgorsydd a ddiraddiwyd sydd â'r gallu i adfywio'n naturiol;
- Pantiau yn swbstradau mawn y Rhynchosporion.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fe’m cynghorwyd hefyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru mai erbyn mis Mawrth 2020, ac nid Ebrill 2019 fel y nodwyd yn flaenorol, y disgwylir i’r Datganiadau Ardaloedd gael eu datblygu. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i’r Datganiadau Ardaloedd adlewyrchu a mynd i’r afael â’r blaenoriaethau a’r heriau fel nodwyd ym Mholisi Cyfoeth Naturiol Cymru, a chymhwyso egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy wrth eu datblygu.

Rwy’n amgáu fersiwn diwygiedig o’r Fframwaith a’r Cynllun Gweithredu i’w dosbarthu i aelodau’r Pwyllgor.

Cofion

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs